Cath Elmer
Caerdydd

RSK
Caerdydd

Mai 2024

Annwyl Reolwr Recriwtio,

Rwy'n fyfyriwr Daeareg yn fy ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rwy'n ysgrifennu yn sgîl cyfle a gafodd ei hysbysebu ar Gradcracker i ymgymryd ag interniaeth dros yr haf yn y Tîm Asesu Effaith Amgylcheddol.

Drwy gydol fy nghyfnod yn y brifysgol, rwy wedi dod i werthfawrogi’r byd ymgynghori a'r sector amgylcheddol ehangach drwy ystyried opsiynau o ran gyrfa ôl-graddio, yn ogystal ag ymgymryd â chynllun mentora gyrfaol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn dilyn sgyrsiau gyda fy mentor, rwy wedi dysgu cryn dipyn am y buddion sydd ynghlwm wrth weithio yn y sector cynaliadwyedd, yn ogystal â'r heriau, gan gynnwys cyfyngiadau o ran ariannu ac adnoddau. Rwyf nawr yn fwy awyddus nag erioed i gael cipolwg o lygad y ffynnon ar fywyd yn gweithio mewn gweithle ymgynghori, ynghyd ag ehangu fy ngwybodaeth am y broses asesu effaith amgylcheddol (AEA).

Pleser mawr oedd gallu treulio ychydig o amser yn trafod y gwaith rydych chi'n ei wneud yn RSK gyda chynrychiolwyr o’ch cwmni a ddaeth i Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Roeddwn wrth fy modd yn clywed am ymrwymiad y sefydliad i bob un o’r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) a'ch ymagwedd at gefnogi ein planed orau wrth inni symud tua’r dyfodol. Mae’r gwerth rydych chi’n ei roi ar gynhyrchu gwaith o safon, ochr yn ochr â rhoi blaenoriaeth i’ch cleientiaid yn rhywbeth y byddwn wrth fy modd yn gallu bod yn rhan ohono.

Fel y gwelwch chi yn fy CV, rwy wedi cael sawl swydd ran-amser dros y blynyddoedd diwethaf. Gan amlaf, rwyf wedi gweithio i’r Co-Op, ac mae'r swydd hon wedi rhoi rhywfaint o annibyniaeth ariannol imi, yn ogystal â sawl shifft bob wythnos, wrth geisio parhau i gael graddau academaidd rhagorol. Rwy'n mwynhau cwrdd â chwsmeriaid, ac yn sicr, rwy’n fwy hyderus, ac yn hapus i ddechrau sgwrs â phobl eraill, a bod yn aelod croesawgar o’r tîm. Rwy'n gwybod bod RSK yn blaenoriaethu ei gwsmeriaid, ac rwy'n credu bod gen i'r sgiliau i ddatblygu cydberthnasau gwaith rhagorol a chyflwyno'ch cwmni mewn modd proffesiynol.

Yn ogystal â bod yn gyfathrebwr hyderus, rwyf hefyd ar fy ngorau wrth wneud gwaith tîm. Rhan annatod o’m gradd fu mynd ar sawl taith maes heriol a phleserus, gan gynnwys treulio wythnos yng Ngogledd Sbaen yn ymchwilio i xxx a chasglu data ar xxx. Roedd y profiad hwn yn un o uchafbwyntiau fy astudiaethau hyd yma. Roedd y tîm y gwnes i gyd-weithio â nhw yn brofiad da, ac rwy’n gwybod bod tynnu ar gryfderau eraill yn bwysig, ac annog morâl y tîm pan fo angen yn rhywbeth rwy’n rhoi pwyslais mawr arno.

Rwy’n edrych ymlaen at y cyfle i drafod fy addasrwydd ar gyfer y rôl gyda chi ymhellach, a diolch yn fawr ichi am eich amser a’ch ystyriaeth.

Cofion cynnes,

Cath Elmer